Ar hyn o bryd mae holl ysgolion Sir Benfro'n cymryd rhan mewn prosiect o'r enw Operation Encompass ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys fel menter ledled y sir.

Operation Encompass yw dweud wrth ysgolion pan fydd plentyn neu rywun ifanc wedi bod yn agored i, neu'n rhan o, unrhyw ddigwyddiad teuluol.

Mae Operation Encompass yn sicrhau bod aelod o staff yr ysgol, yr Oedolyn Allweddol, wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd ynghylch y digwyddiad teuluol i sicrhau bod cymorth digonol ar gael i blant a/neu eu teuluoedd, lle bu, neu lle gwelwyd, digwyddiad camdriniaeth deuluol.

Rydym yn awyddus i gynnig y cymorth gorau a allwn i'n holl ddisgyblion a chredwn fod y prosiect hwn yn fanteisiol dros ben i bawb dan sylw.

Yn ystod cyfnod y COVID-19 bydd Operation Encompass yn dal i hysbysu digwyddiadau o gamdriniaeth deuluol i ysgolion ac fe allant gysylltu â chi i drafod unrhyw gymorth neu gyngor y gallech fod ei angen yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal gallwch hefyd gysylltu â rhywun i siarad trwy lwyfan digidol / sianel gyfathrebu eich ysgol os hoffech siarad ymhellach â rhywun ynghylch unrhyw bryderon neu gael cyngor ar gamdriniaeth deuluol.